# Mwsoglau i ddechreuwyr – taflen adnabod

Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU



Mae mwsoglau'n ymddangos yn debyg i'w gilydd nes i chi edrych yn ofalus. Dyma 5 mwsogl cyffredin, o wahanol gynefinoedd, gyda nodweddion unigryw i helpu i'w hadnabod. Beth am geisio dod o hyd iddynt yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru?

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws



## Mwsogl rhedynaidd y coed

*Thuidium tamariscinum*

Mwsogl hardd, mawr, sbringar sy'n garped ar y tir mewn coedwigoedd, yn enwedig ymhlith conwydd.

Mae'n edrych yn debyg i redyn gyda changhennau sy'n crymu drosodd ac yn cael eu rhannu'n dri.






## Plufwsogl sidanaidd y mur

*Homalothecium sericeum*

Gallwch ddod o hyd iddo ar furiau a changhennau coed ond byth ar y ddaear. Chwiliwch am ganghennau ymledol sengl sy'n ymestyn allan fel bysedd wrth gadw'n agos at y mur – fel y rhai sydd i'w gweld yn y llun uchod.

Pan yn sych, gall edrych yn wahanol iawn. Mae blaenau'r dail yn mynd yn sgleiniog ac mae'r canghennau'n cyrlio i mewn ar eu hunain. Ond bydd ganddo'r canghennau byseddog o hyd.





## Mwsogl tywyrch gwrychog

*Rhytidiadelphus squarrosus*

Mwsogl cyffredin mewn lawntiau, lle nad oes unrhyw gemegau wedi'u hychwanegu. Mae eginyn yn tyfu'n unionsyth, gyda dail gwyrdd llachar yn plygu'n ôl tuag at goesynnau oren.

Mae'r dail sy'n plygu'n ôl yn estyn allan ac yn gwneud i'r mwsogl edrych yn bigog.





## Cryphaea ochrol

*Cryphaea heteromalla*

Mae'r mwsogl hwn yn tyfu mewn ardaloedd ag aer o ansawdd da yn unig. Mae blagur gyda chapsiwlau yn ymestyn allan o'r goeden, fel bod sborau'n gallu amsugno'r aer.

Mae capsiwlau a chanddynt flaenau oren yn ffurfio rhes ar un ochr i'r blaguryn.





## Edeufwsogl blewog

*Bryum capillare*

Gallwch ddod o hyd iddo ar furiau. Mae capsiwlau'n hongian i lawr, yn siglo'u pennau fel blodyn eirlys, gyda choesynnau coch. Mae diferion dŵr yn cronni arnynt yn y glaw neu wlith y bore.

Mae'r blagur yn fyr, wedi'u clystyru'n dynn ac yn ffurfio clustogau. Mae gan ddail bwynt gwallt gwyn byr, ac maent yn troi i fyny fel corcsgriw pan fyddant yn sych.